Bai ar gam

Colli cyfle / Bod yn amyneddgar / Parch at fywyd

Mewn gwlad bell, bell i ffwrdd roedd mongŵs wedi dod yn ffrindiau efo teulu bach. Yn y tŷ roedd tad, mam a babi bach yn byw. Roedd y rhieni wrth eu bodd efo'r babi bach. Hwn oedd y babi delaf yn y byd i gyd yn grwn. Bob bore byddai'r fam yn bwydo'r babi bach. Yn y pnawn byddai'n mynd ag ef am dro ar hyd y llechweddau. Gyda'r nos byddai'n suo'r babi bach i gysgu. Weithiau byddai'n deffro yn y nos ac yn crio. Byddai'r fam yn rhoi bwyd iddo a byddai'n cysgu wedyn tan y bore.

Yn y tŷ hefyd roedd anifail anwes go ryfedd yn byw. Creadur bron yr un maint â charlwm efo cot ddu a gwyn a chynffon hir ydoedd. Mongŵs oedd hwn. Hwn oedd y creadur oedd yn gallu lladd nadroedd gwenwynig. Roedd llawer o nadroedd gwenwynig yn yr ardal lle roedd y teulu'n byw. Roedd rhieni'r babi wedi magu'r mongŵs ers pan oedd yn ddim o beth. Roedd o'n rhan o'r teulu. Ond doedd y rhieni ddim yn gallu ymddiried yn llwyr yn y mongŵs. Wedi'r cwbl, anifail oedd o. Roedd hi ofn iddo ymosod ar y babi bach.

Un diwrnod bu rhaid i'r fam fynd ar frys i'r dref. "Wnei di ofalu am y babi bach tra byddai yn y dref." Roedd ei gŵr yn brysur yn yr ardd. Anghofiodd bopeth am yr hyn ddywedodd ei wraig wrtho. Bu wrthi'n palu a chwynnu bob yn ail. Roedd drws y tŷ yn llydan agored. Sleifiodd neidr fawr dywyll ei chroen i mewn i'r tŷ. Cyrliodd yn dorch o dan grud y babi bach. Daeth y mong_s o'i gawell yn y sied. Aroglodd o'i gwmpas. Roedd arogl neidr yn llenwi'r tŷ. Chwiliodd bob twll a chornel am y neidr. Ond doedd dim golwg ohoni'n unman. Aeth i'r llofftydd i chwilio. Ond doedd yna ddim golwg o'r neidr.

Daeth yn ôl i'r ystafell lle roedd crud y babi bach. Yn sydyn gwelodd rywbeth yn symud o dan y crud. Syllodd yn ofalus. Gwelodd dafod fforchog y neidr yn ymddangos. Ymosododd ar y neidr a'i llarpio. Bu farw'r neidr yn syth. Rhedodd y

mongŵs allan o'r tŷ i'r ardd pan gyfarfu â'r fam.
Gwelodd y fam waed y neidr ar ei wefusau. Gwaeddodd yn uchel. Gafaelodd mewn carreg a'i thaflu at y mongŵs. Trawyd ef yn ei ben a bu farw. Roedd hi'n siŵr bod y mongŵs wedi lladd ei babi. Rhedodd at ei gŵr oedd yn dal i weithio yn yr ardd. Dywedodd y stori wrtho. Roedd y ddau ofn mynd i mewn i'r tŷ. Roedd y drws yn llydan agored. Camodd y ddau i mewn yn bryderus. Aethon nhw'n syth at grud y babi bach. Dyna lle roedd y baban yn cysgu'n dawel yn ei grud fel petai dim byd wedi digwydd. Ar y llawr roedd darnau o'r neidr wenwynig. Dechreuodd y wraig grio'n hidl.
"Wyddost ti beth ydw i wedi'i wneud?" meddai wrth ei gŵr. "Pan welais y mongŵs yn dod i'm cyfarfod â gwaed o gwmpas ei geg roeddwn yn meddwl yn siŵr ei fod wedi lladd ein babi bach. Ond lladd y neidr wenwynig wnaeth o."
Wylodd y ddau wrth sylweddoli eu bod wedi lladd eu ffrind gorau.

Wnei di fy nysgu, O Dduw, i fod yn berson amyneddgar, pwyllog. Amen.

✦ Roedd y wraig wedi barnu'r mongŵs cyn iddi wybod yn iawn beth oedd wedi digwydd. Fyddwch chi'n fyrbwyll weithiau?
✦ Oes gennym ni stori debyg i hon yng Nghymru?